Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar nos Fercher y 13eg o Ebrill 2011 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.05yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Christopher Parish, y Dirprwy Faeres y Cyng. Julia Jones (Cadeirydd), y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Ros Bellamy
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Charlotte Leadbeater, Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Cof 9 / Ebrill / 11 Cyfrifon i'w talu

Orchardweb	£ 40.00
CGGC (Gweinyddu Ebrill 2011)	£ 24.30
CGGC (Cyflogres – oriau ychwanegol)	£ 234.98
Konica Minolta (cynnal a chadw'r llungopïwr)	£ 7.60
CSG – Goleuadau'r droetffordd (Rhag - Mawrth)	£ 283.87
Lewis printers (Taflenni yn Almaeneg/ Ffrangeg)	£ 150.00

Argymhellwyd fod pob un o'r uchod yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 10/ Ebr / 11 Ni dderbyniwyd unrhyw incwm ym mis Mawrth 2011

Cof 11 / Ebr / 11 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 31.3.11)	£ 340.09D
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 31.3. 11)	£ 35,827.90
Cyfrif Maer CTLl (fel ar 18.3.11)	i'w gadarnhau

Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod £5,000 yn cael ei drosglwyddo o'r cyfrif cadw i'r cyfrif cyfredol, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 12/ Ebr / 11 Materion Ariannol Eraill

1. Adroddiad Cyllideb hyd at ddiwedd Mawrth 2011.
   Cyflwynodd y Swyddog Cyllid adroddiad cyllideb drafft. Mae cyllido doeth wedi galluogi'r Cyngor i wario llai nag yr oedd wedi cyllido ar ei gyfer yn y flwyddyn. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bleidlais o ddiolch i'r Swyddog Cyllid am fonitro'r gyllideb ac am ddarparu gwybodaeth gywir i alluogi'r Cyngor i gyflawni'r arbediad hwn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
2. Rhagolwg Cyllideb Tair Blynedd.
   Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau.

3. Aelodaeth o Un Llais Cymru
   Fe wnaeth y Cyng. Edward Thomas argymell bod y Cyngor yn adnewyddu ei aelodaeth flynyddol am bris o £250. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
4. Cyfarfod gyda Chlwb Goldwing De Orllewin Cymru.
   Cyfarfu rhai o'r Cynghorwyr gyda swyddogion o'r clwb hwn, sy'n cynnal digwyddiad rhanbarthol pedwar diwrnod yn Llandeilo ym mis Awst 2011. Byddai'r digwyddiad yn denu nifer sylweddol o bobl i Landeilo. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Pwyllgor yn argymell rhoddi £250 i'r digwyddiad, i dalu am doiledau cludadwy ar gyfer pobl sy'n gwersylla yng Nghae William ar y tair noson dan sylw. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
5. Gŵyl y Synhwyrau 2011.
   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Cyngor yn egluro'r rhodd sydd i'w roi i'r Ŵyl, trwy gadarnhau mai'r cyfanswm fyddai £1,250, £1,000 ychwanegol i gymryd i ystyriaeth y byddai pwyllgor yr Ŵyl yn trefnu'r digwyddiad Cynnau Goleuadau'r Nadolig. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd hyn ar yr amod fod cyfrifon archwiliedig yr Ŵyl yn 2010 yn cael eu rhoi i'r Cyngor. Roedd pawb o blaid.

Cof 13 / Ebr /11 Doedd dim Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

Cof 14 /Ebr /11 Goblygiadau Ariannol Adroddiad y Swyddog Technegol

Oherwydd nad oedd y Swyddog Technegol yn medru bod yn bresennol yn y cyfarfod, byddai'r goblygiadau sy'n deillio o'i adroddiad yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor llawn.

Cof 15 / Ebr /11 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10yh.